| SWYDD DDISGRIFIAD: Goruchwyliwr Sgiliau Ymarferol (Peirianneg a Thechnolegau Adnewyddadwy) | |
|---|---|
| **Maes Rhaglen / Adran** | Peirianneg |
| **Prif Safle** | Rhyl |
| **Cyflog** | £30,513.97 - £32,557.02 y flwyddyn<br>Cymorth Busnes<br>Graddfa 6 - Pwynt 29 - 31 |
| **Y Math o Gontract** | Parhaol |
| **Telerau'r Contract** | Llawn Amser |
| **Yn atebol i** | Rheolwr Maes Rhaglen |

## Pwrpas y Swydd

O dan arweiniad a chyfarwyddyd cyffredinol y staff darlithio bydd y Goruchwylydd Sgiliau Ymarferol yn cynnal sesiynau ymarferol mewn gweithdai i grwpiau o ddysgwyr, a bydd yn cynorthwyo darlithwyr trwy olrhain ac asesu cynnydd y dysgwyr, gan roi arweiniad a chefnogaeth yn ôl yr angen.

**Ble byddwch chi'n gweithio: Y Ganolfan Peirianneg a Thechnolegau Adnewyddadwy newydd ar gampws y Rhyl**

Mae'r ganolfan newydd yn darparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf i'r sector peirianneg ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a fydd yn cefnogi anghenion y diwydiant yn y dyfodol, yn cynnwys sgiliau hanfodol ar gyfer llwybrau dilyniant ym maes: mecaneg, cynnal a chadw, electroneg, trydan, ynni adnewyddadwy, gweithgynhyrchu ychwanegion a thrawsnewid digidol.

Mae gan y ganolfan newydd gyfleusterau hyfforddi ac arbenigedd ym maes ynni adnewyddadwy, a rhan o'ch gwaith fydd cefnogi rhaglen brentisiaeth genedlaethol i dechnegwyr tyrbinau gwynt ar y tir a'r môr. Yr adran hefyd sy'n arwain y gystadleuaeth sgiliau Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru.

Mae'r cyfleuster tri llawr newydd yn 2,886m$^2$ ac yn cynnwys gwerth dros £2m o'r offer hyfforddi arbenigol diweddaraf – o ystafelloedd dylunio gyda chymorth cyfrifiaduron i beiriannau prototeipio 3D a gweithdy CNC. Ceir hefyd labordai ar gyfer electroneg, egwyddorion mecanyddol, roboteg, PLCs, Diwydiant 4.0, Realiti Rhithwir a Realiti Estynedig.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

**PRIF DASGAU**

1. Darparu sesiynau sgiliau ymarferol i ddysgwyr mewn gweithdy a/neu yn y gweithle.

2. Asesu a chofnodi cynnydd dysgwyr yn unol a threfniadau'r tracio ac ansawdd y Grŵp ac ymgymryd a dyletswyddau gweinyddol a threfniadau asesu yn unol â threfniadau a gofynion y bwrdd dyfarnu.

3. Cynnig adborth ac arweiniad i ddysgwyr i gefnogi ac atgyfnerthu eu dysgu.

4. Cadw safonau disgyblaeth addas o fewn y gweithdy a sicrhau ymarfer dda gan ddysgwyr mewn perthynas a iechyd, diogelwch a lles.

5. Paratoi deunydd, taclau ac offer a chynnal y gweithdy / ardal waith ar gyfer sesiynau ymarferol gyda dysgwyr gan sicrhau cydymffurfiad gyda ymarferion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.

6. Ar adegau pan na fydd dysgwyr yn y coleg fe ddisgwylir i ddeilydd y swydd gynnal a chadw'r gweithdy, deunyddiau, taclau ac offer.

7. Cynorthwyo gyda gweithgareddau marchnata a recriwtio ac ymgymryd â datblygiad staff fel y bo'n briodol.

**GWEITHGAREDDAU GWAITH**

**1. Hyfforddi ac yn arolygu dysgwyr yn y gweithdy ymarferol.**

Dangos y defnydd diogel a chywir o beiriannau, offer a thaclau i ddysgwyr (a staff os oes angen) a chynghori, cynorthwyo a goruchwylio.

1.1 Cynghori, cynorthwyo goruchwylio dysgwyr i osod a gweithredu peiriannau, offer, arbrofion, prosesau ac ati yn ddiogel a chywir.
1.2 Cynghori a chynorthwyo dysgwyr i ddatblygu sgiliau iddynt gwblhau gwaith ymarferol a phortffolio.
1.3 Goruchwylio dysgwyr yn gwneud prosiect ymarferol neu waith aseiniad a osodwyd gan ddarlithwyr neu reolwr atebol.
1.4 Hyfforddi a goruchwylio dysgwyr gydag anghenion penodol i sicrhau bod pawb yn integreiddio i ddosbarthiadau ymarferol. Cynorthwyo eraill i ddyfeisio a gweithredu rhaglen wedi ei haddasu yn arbennig ar eu cyfer.
1.5 Goruchwylio dysgwyr yn gwneud gweithgareddau arbenigol mewn amgylcheddau gwaith wedi eu hefelychu neu wirioneddol o fewn y coleg.
1.6 Cynorthwyo ac arolygu ymgeiswyr NVQ/Prentisiaid/Hyfforddeion, a dysgwyr ar brofiad gwaith (fel bo angen).

**2 Asesu gwaith ymarferol myfyrwyr**

2.1 Asesu dysgwyr unigol neu brentisiaid/hyfforddeion lleoliad gwaith yn ffurfiol neu anffurfiol mewn sefyllfaoedd profiad gwaith gwirioneddol neu wedi ei hefelychu yn y Coleg a chynghori darlithwyr neu reolwyr atebol.
2.2 Cynnal cofnodion asesu yn unol gyda threfniadau coleg.
2.3 Cynorthwyo darlithwyr neu reolwyr atebol i asesu gwaith ymarferol myfyrwyr.
2.4 Monitro lleoliad gwaith myfyrwyr yn ffurfiol gan gynnwys unrhyw elfennau o asesiadau seiliedig ar waith sydd yn ofynnol.
2.5 Gwneud asesiad wedi ei seilio ar y man gwaith a chysylltu gyda gweithwyr perthnasol wrth ymgymryd â thasgau angenrheidiol yn y man gwaith.
2.6 Darparu gwybodaeth a chydweithredu mewn trefniadaethau dilysu mewnol ac allanol.
2.7 Cyfeirio pryderon am gynnydd neu lles i ddarlithydd neu rheolwr rhaglen fel yn briodol

**3 Cyfranogi mewn cyd-gysylltu a datblygu rhaglenni**

3.1 Cyfranogi mewn cyfarfodydd Rhaglen Tîm.
3.2 Cynorthwyo arweinwyr cwrs i gynhyrchu cynlluniau gwaith – (yn ddibynnol ar anghenion dysgwyr).
3.3 Cynhyrchu amserlenni asesiadau, taflenni, dalennau aseiniad neu adnoddau eraill fel y bo angen.

3.4 Gwneud gwaith gweinyddol cysylltiedig gyda gweithgareddau ymarferol dysgwyr e.e. cofrestri, cofnodion gwaith, rhoi gwybod am absenoldebau, cynnydd ffurfiol ac anffurfiol ac adroddiadau cyflawniad, data ystadegol ac ati.
3.5 Cymryd rhan mewn trefniadaethau adolygu asesu ansawdd.
3.6 Cymryd rhan mewn unrhyw bwyllgor coleg neu grŵp yn datblygu neu adolygu rhaglenni o fewn maes arbenigedd deiliad y swydd.

**4 Gweithredu, trwsio a chynnal peiriannau, taclau ac offer ac yn cynnal gweithdy**

4.1 Mewn cytundeb gyda'r Rheolwr Maes Rhaglen newid cynllun y gweithdy yn uniongyrchol neu drwy baratoi gofynion cynllun / gwasanaethau.
4.2 Gwirio'n weledol gyflwr peiriannau, offer gan gynnwys offer llaw neu ber; glanhau a thrwsio os yn bosib a'u taflu os nad yw.

4.3 Cynnal, addasu a gwasanaethu peiriannau, offer a thaclau, a gwneud atgyweiriadau o'r fath fel yn bosib gan weithio gyda chymorth technegwyr.
4.4 Rhoi gwybod am ofynion ar gyfer profi offer trydanol cludadwy i'r staff perthnasol.
4.5 Trefnu atgyweiriadau arbenigol gan wneuthurwyr / gyflenwyr neu yn cael eu cyngor i wneud atgyweiriadau yn bersonol - cydweithio gyda'r Rheolwr Rhaglen /staff gweithdai.
4.6 Gweithredu'r holl beiriannau yn ôl y gofyn gan ymlynu a rheoliadau iechyd a diogelwch
4.7 Adleoli peiriannau neu offer, unai ar eich pen eich hun neu gyda chymorth.

**5 Cyflawni swyddogaethau iechyd a diogelwch**

5.1 Rhoi gwybod am beryglon a gwendidau a darparu cymorth i staff Ystadau a'r Swyddog Iechyd a Diogelwch pan fo angen, gan gynnwys; cynorthwyo gydag archwiliadau, darparu gwybodaeth a chasglu data.
5.2 Gweithredu fel Aseswr COSHH, o dan arweiniad Swyddog Iechyd a Diogelwch os oes angen, ar gyfer y gweithdy gan gynnwys; cael gafael ar Daflenni Data Peryglon; gwneud a chofnodi'r asesiadau; gweithredu mesurau rheoli pan y gall a chyfeirio eraill at reolwyr llinell neu staff priodol.
5.3 Gweithredu fel Aseswr Perygl, o dan arweiniad Swyddog Iechyd a Diogelwch os oes angen, yn unol a deddfwriaeth gan gynnwys; cario allan a chofnodi'r asesiadau, gweithredu mesuriadau rheoli lle y gall a chyfeirio eraill at y rheolwr atebol neu staff priodol.
5.4 Cynhyrchu ac arddangos Rheolau Iechyd a Diogelwch gweithdy a chyfarwyddiadau gweithredu'n ddiogel ar beiriannau, taclau ac offer ar gyfer y gweithdy.
5.5 Cynnal diogelwch a chynnwys yr ardal waith h.y. deunydd ac offer.

**6 Dyletswyddau eraill**

6.1 Unrhyw waith arall sy'n gymesur â'r raddfa gyflog, yn ogystal â sgiliau a galluoedd deiliad y swydd
6.2 Dylid nodi bod y Swydd Ddisgrifiad hwn yn cynnwys crynodeb o brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Gall hyn arwain at newidiadau yn sgil gofynion gweithredol y Grŵp.

| Manyleb Deiliad y Swydd | Hanfodol | Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymhwyster galwedigaethol Lefel 3 (neu uwch), neu'r hyn sy'n cyfateb mewn disgyblaeth perthnasol | X | | Ffurflen Gais |
| Cymhwyster asesu neu barodrwydd i gyflawni o fewn cyfnod a gytunwyd | X | | Ffurflen Gais |
| Wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg neu'n barod i wneud hyn cyn ymgymryd â'r swydd. | X | | Ffurflen Gais/ Cyfweliad |
| Cymhwyster Dilysu Mewnol neu barodrwydd i'w ennill o fewn cyfnod y cytunwyd arno | | X | Ffurflen Gais/ Cyfweliad |
| Cymhwyster Iechyd a Diogelwch neu barodrwydd i'w ennill o fewn cyfnod y cytunwyd arno | | X | Ffurflen Gais/ Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | | |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd Adeiladwaith perthnasol. | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio gydag ymgeiswyr NVQ /prentisiaid/ hyfforddeion | | X | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o wneud asesiadau o risg. | | X | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau a Phriodweddau** | | | |
| Hunan Gymhelliant | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu i weithio o dan bwysau ac i gyfarfod gyda dyddiadau cau | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gweithio i safonau proffesiynol a moesegol uchel | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Trefnus | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu i weithio yn effeithiol fel rhan o dîm | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Cyfathrebwr effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu i gefnogi hyfforddeion i gyflawni eu hamcanion | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Medru cynllunio gwaith a rheoli amser yn effeithiol | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau arwain pobl | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau TG datblygedig | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Cymhwyster ECDL neu gymhwyster cyfwerth | | X | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gofynion Ychwanegol** | | | |
| Y gallu i deithio'n unol â gofynion y swydd | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau Cymraeg** | | | |

| Ceir manylion llawn am lefelau sgiliau Cymraeg yn: https://www.gllm.ac.uk/cy/jobs | | |
|---|---|---|
| **Dealltwriaeth o'r Gymraeg** | Cwrteisi Ieithyddol | Cyfweliad |
| **Yn siarad Cymraeg** | Cwrteisi Ieithyddol | Cyfweliad |
| **Llythrennedd Cymraeg** | Cwrteisi Ieithyddol | Cyfweliad |

**Noder os gwelwch yn dda -** fe roddir ystyriaeth i ymgeiswyr sy'n nodi eu bod o fewn 1 lefel i fodloni'r gofyniad sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer y swydd ar yr amod y byddai unrhyw gynnig o gyflogaeth yn cynnwys cytundeb cytundebol i ddatblygu eu Sgiliau Cymraeg.

**Gofynion Gorfodol**

Yn unol â Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg 2015 mae'n ofyniad statudol bod unigolion yn cofrestru â'r Cyngor cyn dechrau gweithio yn y Grŵp

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn Iechyd a Lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, bydd gofyn i unigolion gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gadarnhau eu bod yn addas i weithio mewn amgylchedd addysgol. Bydd tystysgrifau GDG trwy wasanaeth diweddaru'r GDG yn cael eu derbyn yn unol â'r canllawiau a geir yn - https://www.gov.uk/dbs-update-service.

O dan adran 8 Deddf Mewnfudo a Lloches 1986, mae'n ofyniad cyfreithiol ar unigolion i ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau bod ganddynt hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

| Crynodeb o'r Telerau a'r Amodau | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith** | 37 awr yr wythnos |
| **Wythnos Waith** | 52 o wythnosau'r flwyddyn |
| **Gwyliau Blynyddol** | • 28 diwrnod y flwyddyn, yn codi i 32 diwrnod ar ôl pum mlynedd lawn o wasanaeth di-dor (01 Medi i 31 Awst).<br>• Yr holl wyliau cyhoeddus arferol, i'w pennu'n flynyddol.<br>• Hyd at 5 diwrnod effeithlonrwydd / diwrnod y trefnwyd i'r safle fod ar gau bob blwyddyn, i'w pennu'n flynyddol.<br>• Bydd gan y rhai ar gontractau Rhan-amser hawl pro rata i'r hyn a nodir uchod.<br>• Bydd gan y rhai ar gontractau Amser Tymor hawl pro rata i'r hyn a nodir uchod a delir fel rhan o'r cyflog blynyddol. |
| **Pensiwn** | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (https://www.lgpsmember.org/) |
| **Teithio** | Caiff y trefniadau ar gyfer ad-dalu treuliau i aelodau staff sy'n mynd i gostau ychwanegol wrth wneud gwaith swyddogol i Grŵp Llandrillo Menai eu hegluro yn y Polisi Teithio, Cynhaliaeth ac Adleoli.<br><br>Yn dilyn eu penodiad, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau Ffurflen Asesu Gyrwyr ar gyfer Sgrinio Iechyd (os yw'n berthnasol). I gadarnhau bod ganddynt yswiriant at "Ddibenion Busnes", mae'n rhaid i bob gweithiwr sy'n hawlio treuliau am ddefnyddio eu ceir personol gyflwyno copïau o'u tystysgrifau yswiriant i Adran Gyllid y Grŵp bob blwyddyn. |
| **Sgrinio Iechyd** | Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau holiadur iechyd ac efallai y bydd gofyn iddynt gael archwiliad meddygol. |

| JOB DESCRIPTION:<br>***Practical Skill Supervisor (Engineering & Renewable Technologies)*** | |
|---|---|
| **Programme area / Department** | Engineering |
| **Main site** | Rhyl |
| **Salary** | £30,513 - £32,557 per annum<br>Business Support<br>Scale 6 - Points 29 – 31 |
| **Contract type** | Permanent |
| **Contract terms** | Full Time |
| **Reporting to** | Programme Area Manager Engineering |

**Job purpose**

Under the general guidance and direction of lecturing staff the Practical Skills Supervisor will deliver practical sessions to groups of learners within a practical workshop, and will provide support to lecturers by tracking and assessing learner progress, providing guidance and support where required.

**Where you will work: The new Engineering & Renewable Technologies Centre - Rhyl campus**

The new centre is a hub for delivering world-class education and training for the engineering sector and will enable skills development whilst supporting the future needs of industry, including those critical to the pathways of; mechanical, maintenance, electronics, electrical, renewable energy, additive manufacturing, advanced manufacturing and the digital transformation of industry.

The new centre boasts training facilities and expertise for the renewable energy sector, including a UK on-shore and off-shore wind turbine technician apprenticeship programme, that you will be involved with on a daily basis. The department also leads on the Renewable Energy skills competition in Wales.

The new, three-floor, 2,886m² facility is packed with more than £2m worth of highly-specialised training equipment: from CAD/CAM suites, a 3D prototyping laboratory, industry CNC machine workshop and wider laboratories for; electronics, mechanical principles, robotics, PLCs, Industry 4.0, VR and AR.

**Main duties and responsibilities**

**MAIN TASKS**

1. Deliver practical skills/competencies in both workshop and/or workplace setting.
2. Assess and record learner progress in accordance with Grŵp tracking and quality systems and to undertake administration and assessment procedures in line with awarding body requirements.
3. Provide feedback and guidance to learners to support and reinforce their learning
4. Maintain appropriate standards of discipline and to ensure good workshop practice in relation to health, safety and welfare by learners.
5. Prepare materials, tools and equipment, workplaces and workstations for practical learner sessions ensuring compliance with agreed Health and Safety and environmental practices.
6. At times when there are no students/trainees present at the college, the post holder will undertake duties associated with the maintenance and upkeep of the workshop environment and tools, equipment and machinery.

7. Assist in marketing and recruitment activities and to undertake staff development as appropriate.

**JOB ACTIVITIES**

**1. Instructs and supervise students in practical workshop setting**

1.1 Demonstrate safe and correct use of equipment and materials to learners (and staff as necessary) and advises, assists and supervises.
1.2 Advise, assist and supervise learners in setting up and operating equipment and processes safely and correctly.
1.3 Advise and assist learners to develop skills that will enable them to complete their practical and portfolio work.
1.4 Supervise learners undertaking practical project or assignment work set by lecturers or line manager.
1.5 Instruct and supervise learners who have specific needs to help ensure that all are integrated into practical classes. Assists others to devise and implement customised programmes.
1.6 Supervise learners carrying out specialist activities in simulated or actual work environments within the college setting.
1.7 Assist and supervise Workplace NVQ Candidates/ Apprentices/Trainees, and learners on work placements (as required).

**2. Assesses students' practical work**

2.1 Formally or informally assesses individual learners or work placement trainees in either real or simulated work experience/ in the workplace or college setting; and orally advises lecturers and line managers of learner progress.
2.2 Maintain assessment records in accordance with Grŵp procedures.
2.3 Liaise with relevant lecturers, team leaders and line manager in the assessment of learners' practical work
2.4 Carry out formal monitoring of learners work placement including any elements of work-based assessments required
2.5 Carry out work-based assessment with learners and liaise with relevant employees in the workplace to undertake necessary tasks.
2.6 Provide information for and co-operate in the internal and external verification procedures.
2.7 Refer concerns regarding learner progress or general welfare concerns to the lecturer or programme manager as agreed.

3. **Participates in co-ordination and development of programmes.**

3.1 Participate in Programme Team meetings.
3.2 Assist course leaders to produce schemes of work as appropriate – (depending on needs of individual groups of learners).
3.3 Produce assessment schedules, handouts, assignment sheets or other resources as necessary.
3.4 Carry out all related administration work in connection with the practical activities of learners e.g. registers, record of work, reporting absences, formal and informal progress and attainment reports, statistical data etc.

3.5 Participate in quality assessment review procedures.
3.6 Participate in any Grŵp committee or group developing or reviewing programmes within the post-holder's area of expertise.

4. **Working with others to operate, repair and maintain equipment and maintain workshop areas.**

4.1 In agreement with Programme Manager and working with relevant staff within the Programme Area modify workshop layout directly or by preparing layout / services requirements.
4.2 Visually checks condition of machinery and equipment, work with relevant staff to clean and repair if possible; and discards if not.
4.3 Maintains or adjusts equipment and carries repairs if appropriate with assistance from technicians.
4.4 Report requirements for testing portable electrical equipment to relevant staff.
4.5 Working with relevant staff to arrange for specialist equipment repairs by manufacturers/ suppliers.
4.6 Operate all machinery as required – adhering to current Health and Safety Regulations and procedures.
4.7 Work with relevant staff to re-locate machinery or equipment.

**5. Carries out health, safety and security functions.**

5.1 Report hazards and defects and provide assistance to Estates staff and Health and Safety Officer when required, including; assisting with inspections; supplying information and gathering data.
5.2 With guidance from health & safety officers as necessary, act as COSHH Assessor for workshops, obtain Hazard Data sheets; carry out and record the assessments; implement control measures and refer concerns to line manager or relevant staff.
5.3 With guidance from health & safety officers where necessary, undertake risk assessments in accordance with current legislation, carry out and record the assessments, implement control measures and refer concerns to Programme Manager or appropriate staff within college or in the workplace.
5.4 Work with relevant staff to produce and display Workshop Health and Safety rules and Safe Operation instructions on workshop equipment.
5.5 Maintain safety and security of workshop areas and contents i.e. equipment and materials.

**6. Other duties**

6.1 Any other work commensurate with the grade, skills and capabilities of the post and post holder
6.2 It should be noted that this Job description provides a summary of the main duties and responsibilities of the post and will be subject to periodic review which may lead to revisions in light of the operational requirements of the Grŵp.

| **Person specification** | **Essential** | **Desirable** | **Assessment method** |
|---|---|---|---|
| **Qualifications** | | | |
| Vocationally related Level 3 (or higher) or equivalent qualification in a relevant discipline | X | | Application form |
| Assessor qualification or willingness to achieve within agreed period | X | | Application form |
| Registered with the Education Workforce Council (EWC) or | X | | Application form/ Interview |

| | | | |
|---|---|---|---|
| willingness to do so prior to taking up post | | | |
| Internal Verifier qualification or willingness to achieve within agreed period | | X | Application form / Interview |
| Health & Safety Qualification or or willingness to achieve within agreed period | | X | Application form / Interview |
| **Knowledge and experience** | | | |
| Experience of working in a relevant Engineering Environment | X | | Application form / Interview |
| Experience of working with NVQ candidates/apprentices/trainees. | | X | Application form / Interview |
| Experience of undertaking risk assessments. | | X | Application form / Interview |
| **Skills and attributes** | | | |
| Self-motivated | X | | Application form / Interview |
| Ability to work under pressure and to meet deadlines | X | | Application form / Interview |
| Working to high professional and ethical standards | X | | Application form / Interview |
| Well-organised | X | | Application form / Interview |
| Ability to work effectively as part of a team | X | | Application form / Interview |
| Effective communicator both orally and in writing | X | | Application form / Interview |
| Ability to support trainees to achieve their objectives | X | | Application form / Interview |
| Able to plan work and manage time effectively | X | | Application form / Interview |
| People leadership skills | X | | Application form / Interview |
| Well-developed I.T. skills | X | | Application form / Interview |
| ECDL or similar qualification | | X | Application form / Interview |
| **Additional requirements** | | | |
| Able to travel as required to fulfil the requirements of the role | X | | Application form / Interview |
| **Welsh language skills** | | | |
| Full details of the Welsh skill levels can be found at: https://www.gllm.ac.uk/jobs | | | |
| **Welsh Understanding** | Linguistic courtesy | | Interview |
| **Welsh Speaking** | Linguistic courtesy | | Interview |
| **Welsh Literacy** | Linguistic courtesy | | Interview |

| |
|---|
| **Please note:** consideration will be given to applicants who indicate that they are within 1 level of meeting the required Welsh skills requirement for the post on the proviso that any offer of employment would include a contractual agreement to develop their Welsh Skills. |
| **Mandatory requirements** |
| In accordance with the Education Workforce Council (EWC) Regulations 2015 it is a statutory requirement that individuals register with the EWC prior to commencing employment with the Grŵp.<br><br>The Grŵp is committed to Safeguarding and protecting the Health and Welfare of children, young people and vulnerable adults. Individuals will be required to complete an Enhanced Disclosure with the Disclosure and Barring Service in accordance with the Rehabilitation of Offenders Act 1974 to ascertain their suitability to work in an educational environment. DBS certificates via the DBS update subscription service will be accepted in accordance with guidance provided - https://www.gov.uk/dbs-update-service.<br><br>Under section 8 of the Asylum and Immigration Act 1986 individuals are required by law to provide documentary evidence confirming their eligibility to work in the United Kingdom. |

| Summary of the terms and conditions | |
|---|---|
| **Working hours** | 37 hours per week |
| **Working weeks** | 52 weeks per year |
| **Annual leave** | ● 28 days leave per annum, rising to 32 days after 5 full holiday years' continuous service (01 September to 31 August).<br>● All normally observed public holidays, determined annually.<br>● Up to 5 days efficiency closure days per annum, determined annually.<br>● Part Time contracts will receive a pro rata entitlement to the above.<br>● Term Time contracts will receive a pro rata entitlement to the above paid as part of annual salary. |
| **Pension** | Local Government Pension Scheme (https://www.lgpsmember.org/) |
| **Travel** | Arrangements to reimburse employees who incur additional expense whilst carrying out their official duties on behalf of the Grŵp is outlined in the Travel, Subsistence and Relocation policy.<br><br>Successful applicants will be required to complete a Drivers Assessment Form for Health screening upon appointment (if applicable). Copies of insurance certificates must be provided to the Grŵp Finance department on an annual basis by all employees claiming mileage expenses for using their own car to confirm that "Business Use" insurance is in place. |
| **Health screening** | Successful applicants will be required to complete a health questionnaire and may be asked to attend a medical. |